

Cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardaloedd Pontypridd a'r Ddraenen Wen

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r asesiad yma wedi'i lunio yn unol â chyfarwyddyd yn Atodiad C o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Yn rhan o'n cynigion mewn perthynas â'r uchod, rydyn ni'n bwriadu ad-drefnu darpariaeth addysg gynradd Cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o Rionda Cynon Taf, a fydd nid yn unig yn gwella'r amgylchedd dysgu, ond hefyd yn cynyddu nifer y lleoedd Cyfrwng Cymraeg. Rydyn ni'n bwriadu cau ffrwd Cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd Heol y Celyn (sy'n ysgol dwy iaith) ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton. Bydd disgyblion y ffrwd Cyfrwng Cymraeg sy'n mynychu'r ddwy ysgol yma ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd, a fydd yn cael ei hadeiladu ar safle hen Ysgol Heol y Celyn. Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau Ysgolion y 21^{ain} Ganrif. Bydd hyn, wrth gwrs, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

Yn ardal y Ddraenen Wen, rydyn ni'n bwriadu cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a sefydlu ysgol 3-16 oed newydd ar safleoedd cyfagos Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd disgyblion presennol yr ysgolion yma, ynghyd â disgyblion ffrwd cyfrwng Saesneg Ysgol Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd gan ddibynnu ar ddewis y rhieni.

Bydd safle hen Ysgol Heol y Celyn yn cael ei glirio a bydd Ysgol Gynradd Sirol Cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yno. Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ac yn llawer gwell o'i gymharu â'r ddau adeilad presennol. Mae gwybodaeth am gyflwr ac addasrwydd yr adeilad presennol wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Bydd lle ar gyfer 480 o ddisgyblion ynghyd â 60 o lefydd Meithrin yn yr ysgol newydd sy'n golygu cynnydd o bron i 100 o lefydd o'u cymharu â chapasiti presennol Ysgol Pont Siôn Norton a ffrwd Gymraeg Heol y Celyn gyda'i gilydd. Rydyn ni'n ystyried y bydd y capasiti yma'n ddigon i fodloni'r galw ar hyn o bryd a'r galw tybiedig yn y dyfodol. Bydd y capasiti yma hefyd yn golygu y bydd modd ehangu'r sector Cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu y tu allan i oriau'r ysgol yn Ysgolion Cynradd Cymraeg Pont Siôn Norton a Heol y Celyn, er enghraifft, clybiau brechwast, clybiau ar ôl yr ysgol a chyfleusterau cymuned eraill, yn parhau yn yr adeilad newydd. Byddwn ni'n cynnal unrhyw gysylltiadau â sefydliadau allanol, er enghraifft, yr Urdd, Menter Iaith, ac ati. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y cysylltiadau yma'n cael eu cryfhau a'u hehangu. Bydd i'r adeilad ysgol newydd ystafell gymuned, a bydd y Pennaeth yn cael ei annog i ystyried defnyddio'r cyfleuster yma i annog ymddiddori yn yr Iaith Gymraeg, er enghraifft, drwy gynnig cyfleoedd i rieni ac aelodau eraill o'r gymuned i ddysgu Cymraeg.

Mae gwybodaeth ynghylch safonau'r ddarpariaeth yn y ddwy ysgol bresennol i'w gweld yn y ddogfen ymgynghori. Rhaid pwysleisio bod Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn ysgol lwyddiannus ac wedi hen ennill ei phlwyf, ac er bod y cynnig yma'n golygu ei chau, bydd ei darpariaeth mewn gwirionedd yn cael ei throsglwyddo i adeilad newydd sbon llai na 2 filltir i ffwrdd o'i safle presennol. Bydden ni felly yn disgwyl i'r ysgol newydd yma adlewyrchu'r ddarpariaeth a'r safonau uchel sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ar hyn o bryd, a'r gobaith yw y bydd modd gwella'r safonau yma hefyd.

Un o'r prif dargedau a gafodd eu hamlinellu yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yw cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei waith o fodloni targed Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Un o'r ffyrdd a gafodd eu nodi i gyflawni hyn oedd ystyried troi ein tair ysgol dwy iaith (y mae Heol y Celyn yn un ohonyn nhw) yn ddarpariaethau cyfrwng cwbl Gymraeg. Rydyn ni o'r farn y bydd y cynnig yma'n cyflawni'r nod yma. Yn ogystal â hynny, y gobaith yw y bydd y lleoedd ychwanegol i ddisgyblion mewn adeilad newydd o'r radd flaenaf yn annog rhagor o rieni i ddewis addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant.